# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Mawrth 2021

Amser: 09.15 - 12.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11114

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Sarah Crawley, Barnardo's Cymru<br>Brigitte Gater, Gweithredu dros Blant<br>Cecile Gwilym, NSPCC Cymru<br>Deborah Jones, Voices from Care<br>Emma Phipps-Magill, Voices from Care<br>Sharon Lovell, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS)<br>Ben Twomey, National Youth Advocacy Service (NYAS) Cymru<br>Jackie Murphy, Tros Gynnal Plant (TGP)<br>Sally Jenkins, Cyngor Dinas Casnewydd |

| | |
|---|---|
| | Jan Coles, Cyngor Sir Powys<br>Nicola Stubbins, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br>Jonathan Griffiths, Cyngor Sir Penfro |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, gan ychwanegu y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.tv

1.3 Os byddai'r Cadeirydd yn gorfod gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, nododd y byddai Dawn Bowden yn cymryd yr awenau fel Cadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 COVID-19: plant sy'n agored i niwed

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan NSPCC Cymru, Barnardo's Cymru a Gweithredu dros Blant.

## 3 COVID-19: plant sy'n agored i niwed

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Voices from Care Cymru a Tros Gynnal Plant Cymru.

3.2 Cytunodd Tros Gynnal Plant Cymru i ddarparu nodyn ynghylch faint o blant sy'n byw yn y 155 o gartrefi preifat annibynnol yng Nghymru.

3.3 Cytunodd Voices from Care Cymru i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

adroddiad ar y broses ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal; a'r

wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sy'n gysylltiedig â'r broses o adael gofal yng Nghymru, sydd â'r teitl 'Pan Fydda i'n Barod'.

## 4 COVID-19: plant sy'n agored i niwed

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr ar reng flaen gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Cafodd y cynnig ei gytuno.

## 7 COVID-19 - Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Oherwydd mai dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor yn ystod y bumed Senedd, cytunodd yr Aelodau i drafod unrhyw welliannau terfynol yn electronig, gan gytuno ar yr adroddiad diwygiedig yn electronig hefyd.